

Clwb Brecwast Adeiladu Cynaliadwy

Sefydlwyd i hwyluso camau gweithredu a fydd yn gwella cynaliadwyedd tai lleol.



Amser: 8.00 – 9.30am

Dechrau: Dydd Mercher, 7 Medi 2011

Yna dydd Mercher cyntaf pob mis

Mynediad am ddim.

Bydd coffi a brecwast ysgafn ar gael (£4).

Lleoliad: Bar y Teras,

Y Ganolfan Rheolaeth,

Ysgol Busnes Bangor,

Ffordd y Coleg

Bangor, Gwynedd.

LL57 2DG

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau dim datblygiad carbon mewn adeiladau ond, i wireddu'r dyhead hwn, mae angen gwelliant sylweddol yn y meysydd a ganlyn:

- adeiladwaith adeiladau
- systemau awyru ac adfer gwres
- gwneud mwy o ddefnydd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy
- defnyddio nwyddau adeiladu cynaliadwy

Mae materion yn ymwneud ag ansawdd aer, ymddygiad defnyddwyr a materion cynnal a chadw yn dechrau cael sylw'n awr er mwyn sicrhau bod llai o garbon yn cael ei ollwng o adeiladau a lleihau defnyddio ynni. Tra ei bod yn ymddangos bod yr atebion adnewyddadwy mwyaf cost effeithiol yn debygol o fod ar raddfa safleoedd cyfan/cymunedau, nid yw'r isadeiledd ynni na'r systemau ariannol a rheolaethol i gynnal yr atebion hyn wedi cael eu datblygu eto.

Sefydlwyd y Clwb Busnes Adeiladu Cynaliadwy gan grŵp o gwmnïau ac unigolion sydd â diddordeb mewn trafod a lledaenu gwybodaeth ar berfformiad cynaliadwy deunyddiau sydd ar gael ar hyn o bryd neu sydd wrthi'n cael eu datblygu. Mae ganddynt ddiddordeb mewn rhannu gwybodaeth a phrofiadau fel y gellir osgoi camgymeriadau a helpu i sicrhau bod Cymru mewn gwirionedd yn cyflawni ei hamcanion o ddim datblygiad carbon mewn dull cynaliadwy. Hoffai'r grŵp weithredu hefyd fel canolbwynt a chyfle i rwydweithio ar gyfer sefydlu isadeileddau cymunedol i gefnogi atebion cost effeithiol.

Y Drefn

Bob mis gwahoddir siaradwr i roi gwybodaeth am nwyddau, materion dylunio, polisiau neu gysyniadau a'r effaith y byddai hynny'n ei chael ar gynaliadwyedd tai. Yna ceir trafodaeth ar y mater. Bydd cyfle hefyd i gymysgu â phobl yn anffurfiol dros goffi.

Trefnwyr

Trefnir a chynhelir y Clwb Busnes Adeiladu Cynaliadwy gan Sefydliad Adnoddau Naturiol Cymru.

Cyswllt

Os hoffech gymryd rhan, awgrymu testun trafod, argymhell siaradwyr neu fod yn fodlon siarad eich hun, a fydddech cystal â chysylltu â Dr Einir Young e.m.young@Bangor.ac.uk / Ceri Loxton drwy e-bost: c.loxton@bangor.ac.uk.